**CC(3)-12-10 (P8)**

**Nodyn ar yr ymweliad â Chanolfannau Cyngor ar Bopeth (CAB) Abertawe Dydd Llun 5 Gorffennaf 2010**

**Yn bresennol:**

- Delyth Morgan – Rheolwr Prosiectau, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Helene Hayes – Rheolwr Datblygu Partneriaethau, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Jackie Preston – Canolfannau Cyngor ar Bopeth Abertawe
- Bethan Wilson – Rheolwr Prosiect Ysgolion, Canolfannau Cyngor ar Bopeth Abertawe
- Sharlene Arnall – Canolfannau Cyngor ar Bopeth Abertawe
- Bethan Jenkins AC – Aelod o'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
- Sarah Bartlett – Gwasanaeth y Pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Llythrennedd ariannol mewn ysgolion**

- Mae CAB wedi gwneud llawer o waith prosiect gydag ysgolion. Cawsant gyllid tymor byr gan Sefydliad Britannia a Chronfa Datblygu Abertawe (a ariennir gan Gynulliad Cymru a Dinas a Sir Abertawe – rheolwyd gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe).
- Mae llythrennedd ariannol yn rhan o'r cwricwlwm, ond nid yw athrawon yn wastad yn teimlo'n hyderus am ei ddysgu; nid ydynt yn siŵr sut i ymdrin â'r pwnc, a ni allwn gymryd yn ganiataol bod yr athrawon yn gymwys yn y maes hwn.
- Caiff llythrennedd ariannol ei ddysgu fel rhan o wersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, ond nid yw gwersi ABCh yn cael eu blaenoriaethu mewn rhai ysgolion.
- Mae canolfannau CAB wedi gweithio gydag athrawon, ond credant fod angen rhagor o hyfforddiant a chymorth ar athrawon yn y maes hwn.
- Mae CAB wedi gweithio gyda 22 ysgol, gan gynnig gweithdai sy'n addas ar gyfer plant o wahanol oedrannau – maent wedi cael adborth cadarnhaol iawn, ac wedi cael eu gwahodd yn ôl i ddarparu rhagor o weithdai.
- Mae gan CAB gysylltiadau â chynghorau ysgol. Mae gan bob cyngor ysgol drysorydd, ac mae CAB wedi eu cynorthwyo i agor cyfrifon banc.
- Caiff siopau byrbryd mewn ysgolion eu rhedeg gan gynghorau ysgol, ac mae CAB wedi darparu gweithdai busnes a chynnig help i baratoi cynlluniau busnes.
- Mae gan wefannau ariannol rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu cyngor mewn ysgolion cyfun.
- Mae rhieni'n aml yn gofyn i athrawon am gyngor ariannol – drwy gyfrwng y prosiect giât-yr-ysgol ym Mlaenau Gwent, er enghraifft. Mae angen rhagor o wybodaeth ar rieni.

**Gwasanaethau a ddarperir gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth**

- Mae CAB yn ceisio galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau eu hunain, ac yn ceisio cynyddu incwm unigolion. Mae gwasanaethau'n anghyson ledled Cymru.
- Dyma esiampl o un o brosiectau CAB: ymgyrch yn erbyn tlodi tanwydd, a fydd yn helpu pobl i reoli eu biliau nwy a thrydan ac i gynilo ar gyfer y Nadolig.
- Mae CAB yn gweithio gydag asiantaethau amrywiol, ac yn ceisio cydlynu'u gwaith er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau drwy edrych ar yr hyn sydd ar gael yn lleol; er enghraifft, mae Uned Cynhwysiant Cymdeithasol Abertawe yn defnyddio gwasanaethau CAB. Mae CAB hefyd yn gweithio gyda Fforymau Gallu Ariannol, CFEB, grwpiau llywio awdurdodau lleol, prosiectau Cymunedau'n Gyntaf a chymdeithasau tai – mae'n well gan denantiaid gael cyngor diduedd.
- Mae gan CAB rôl i'w chwarae i hyrwyddo gallu ariannol: bu Cyngor ar Bopeth yn arwain ar ddatblygiad fforymau gallu ariannol traws-sector ar ôl sicrhau cyllid cychwynnol gan Prudential ccc yn 2002. Mae'r rhwydweithiau hyn yn parhau i weithredu ledled Cymru (a Lloegr) ac yn cynnwys undebau credyd, cymdeithasau tai, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, y sefydliad safonau masnach ac ystod o sefydliadau eraill.
- Mae CAB yn gweithio gydag undebau credyd – ar y prosiect Connect, er enghraifft - ac yn cydweithio gyda CUCPC (Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig) ar brosiect partneriaeth cynhwysiant ariannol. Diben y prosiect yw cynorthwyo canolfannau i ddatblygu partneriaeth gyda'u undeb credyd lleol, nodi'r heriau allweddol o weithio mewn partneriaeth, datblygu arfer gorau ac ystod o fodelau partneriaeth. Cafodd cynllun grantiau bychan sy'n agored i'r holl ganolfannau i wneud cais mewn partneriaeth â'u credyd undeb CUCPC lleol ei lansio ar 2 Chwefror 2007, innau er mwyn datblygu partneriaeth newydd neu adeiladu ar bartneriaeth a oedd yn bodoli eisoes. Cafwyd 68 cais gan ganolfannau ac undebau credyd CUCPC a oedd yn dymuno gweithio mewn partneriaeth. Dim ond £60,000 o gyllid grant bach a oedd ar gael, ac felly dim ond 12 partneriaeth y cafodd eu hariannu (3 yng Nghymru - CAB Caerffili, CAB Sir Ddinbych a CAB Caerdydd). Yn dilyn llwyddiant prosiect Connect 1, mae Banc Barclays ccc wedi darparu cyllid ar gyfer prosiect Connect 2 i wella'r gwaith partneriaeth sy'n digwydd rhwng canolfannau ac undebau credyd. Er mwyn gwella'r berthynas rhwng canolfannau ac undebau credyd ymhellach, mae Connect 2 wedi sefydlu cynllun bwrsari bach sy'n cynnig uchafswm o £1,000 fel grant.
- Mae undebau credyd yn cynnal cynlluniau cynilo mewn ysgolion, ond mae rhai ysgolion yn amharod i gadw arian ar y safle.
- Llinell Gymorth Cymru - mae CAB yn cynnig gwasanaeth gyngor dros y ffôn. Pan fydd aseswyr llinell gymorth un canolfan yn brysur, bydd aseswyr canolfan arall ar gael. Mae rhannu system deleffoni yn galluogi CAB i gymryd galwadau ar ran ei gilydd, gan olygu y gall rhagor o alwadau gael eu hateb, felly caiff gwasanaeth gwell ei gynnig yn y Gymraeg mewn ardal ehangach. Mae gwasanaethau CFEB hefyd wedi eu cynnwys yn y gwasanaeth hwn, sy'n rhoi mwy o ddewis i'r cwsmer o ran cynnig cymorth i ddygymod â dyledion.
- Mae CAB yn ymgysylltu â'r gymuned.
- Cynllun aelodaeth i'r canolfannau; dyma'r safon y caiff canolfannau unigol eu harchwilio yn ei erbyn gan sefydliad Cyngor ar Bopeth. Mae Maes

Safon 8 yn gofyn bod pob canolfan yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol i wella darpariaeth yn y gymuned.

- Mae CAB yn gweithio gyda Provident Financial. Nid yw cwsmeriaid yn wastad yn cyfaddef eu bod wedi troi at fenthycwyr arian anghyfreithlon. Mae CAB yn ceisio cynghori pobl trwy gyfrwng grwpiau cymunedol, er enghraifft grwpiau i blant bach, ac wedi sylwi bod pobl yn mynd ati i chwilio am ragor o wybodaeth drwy sefydliadau porthol.
- Mae gan CAB Gydgysylltwr Credydwyr sy'n arwain y broses o ddatblygu perthnasau gyda banciau mawr a benthycwyr eraill. Gan eu bod yn mynd i'r afael â lefel o ddyled sydd mor uchel, maent wedi sefydlu llinellau ffôn penodol gyda nifer o gredydwyr, gan sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad cyflymach a rhwyddach er mwyn datrys y problemau sy'n codi.

**Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru 2009**

- Mae gweithrediad y strategaeth yn amrywio ledled Cymru.
- Ystyried themâu CAB yng nghyd-destun strategaethau Llywodraeth Cymru.
- Monitro'r gweithgareddau y maent yn dangos diddordeb ynddynt yng nghyd-destun y themâu hyn.
- Mae CAB Abertawe yn cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cyfrannu at y strategaeth – maent yn aelodau o bwyllgor llywio Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Dinas a Sir Abertawe, ac wrthi'n gweithio ar ffurflen fonitro gyda'r Tîm Adfywio Cymunedol sy'n cydlynu'r prosiect; mae'r prosiect hwn yn defnyddio'r un themâu â'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Yr hinsawdd economaidd bresennol**

- Mae dyled yn fater dyngedfennol ar gyfer CAB.
- Mae CAB wedi gweld toriad o 11% yn y gyllideb am y flwyddyn, a fydd yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen.
- Mae'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth wedi bod yn brysur iawn, ac mae CAB wedi sylwi bod cynnydd wedi bod yn y galw am gyngor; maent yn gweld pobl na fyddent yn gofyn am gyngor yn arferol.
- Mae CAB wedi rhoi nifer o fesurau ar waith er mwyn dygymod â'r galw hwn:

    -cynyddu oriau agor;
    -asesiadau porthol;
    -darparu rhagor o gyngor dros y ffôn drwy gyfrwng canolfan rhithwir;
    -canghennau'n cydweithio er mwyn dygymod â phwysau cynyddol; a
    -system asesiad brysbennu – darparu cyngor a deunyddiau sy'n addas i gwsmeriaid (dim ond ychydig o gymorth sydd angen ar rai, a all gynnwys eu cyfeirio at wefan www.adviceguide.org.uk i gael rhagor o wybodaeth). Mae'r system brysbennu yn galluogi cwsmeriaid sydd angen cymorth wyneb i wyneb i gael eu blaenoriaethu – diben y system hon yw galluogi'r cwsmeriaid i wneud dewisiadau.

- Mae'r mesurau hyn wedi sicrhau nad yw'r rhestrau aros presennol wedi cynyddu.